

# Cwm Gwaun

Teithiau Byr



**GRADDFFA:** 0 300 600 m

**DISTANCE:** CWM GWAUN, COED TREGYNON - 2.6 milltir (4.2 km)  
COED GELLI-FAWR - 1.6 milltir (2.6 km), SYCHPANT, CWM BACH - 0.9 milltir (1.4 km)


**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Dim

## COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

## ALLWEDD

- Cwm Gwaun, Coed Tregynon
- Coed Gelli-fawr
- Sychpant, Cwm Bach
- — — — Llwybrau Cyhoeddus
- Maes Parcio
- Safle Picnic





# Cwm Gwaun

## Teithiau Byr

**Cludiant cyhoeddus:** Dim.

### Cwm Gwaun, Coed Tregynon

**Pellter:** 2.6 milltir (4.2 km)

**Cyfeirnod map:** SN045349

**Cymeriad:** Coetir, cerdded ar heolydd bach.

5 sticil.

Trowch i'r chwith allan o'r maes parcio arno i'r heol. Dilynwch yr heol ac ar ôl iddi droi i'r dde, chwiliwch am fynegbost sy'n pwyntio ymlaen a chymerwch y llwybr i'r coed. Ewch trwy giât ar yr ochr chwith, yna wrth y mynegbost, trowch i'r dde, dilynwch y llwybr amlwg, croeswch y bont ac wrth y mynegbost nesaf parhewch yn syth ymlaen. Croeswch sticil ar y dde, croeswch nant a dilynwch y llwybr i gyfeiriad y marciwr llwybr, yna croeswch nant a throwch i'r dde. Ewch yn syth ymlaen wrth y mynegbost ac wrth y mynegbost nesaf trowch i'r dde dros sticil, gan anelu am y mynegbost o'ch blaen. Croeswch ardal gorsiog ar foncyffion, croeswch bont gerdded a sticil, i'r sticil o'ch blaen. Trowch i'r dde arno i'r heol yn ôl i'r maes parcio.

### Coed Gelli-fawr

**Pellter:** 1.6 milltir (2.6 km)

**Cyfeirnod map:** SN061346

**Cymeriad:** Llethrau coediog, caeau ag anifeiliaid, peth cerdded ar heolydd bach.

1 sticil, graddiannau serth, arwynebau anwastad.

Trowch i'r chwith allan o'r maes parcio arno i'r heol a chadwch i'r chwith arno i'r trac mynediad. Ewch drwy'r giât, a dilynwch y llwybr wrth ymyl y cae, gan gadw'r clawdd ar y chwith, ewch drwy giât i mewn i'r cau nesaf, eto ar y llwybr wrth ymyl y cae

gyda'r clawdd ar y chwith. Ewch drwy'r giât nesaf i mewn i'r coed a dilynwch y llwybr ceffylau i lawr y tyle. Ychydig bach cyn y giât, trowch i'r chwith yn siarp i lawr i'r heol. Trowch i'r chwith arno i'r heol a throwch i'r chwith, ble mae'r heol yn troi i'r dde, arno i'r llwybr yn ôl i mewn i'r coed. Ewch drwy giât ar yr ochr chwith, yna wrth y mynegbost trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr i fyny'r tyle. Croeswch y sticil wrth ymyl y coed a throwch i'r chwith arno i'r llwybr wrth ymyl y cae, gan gadw'r clawdd ar y chwith, i'r giât yn ôl i'r maes parcio.

### Sychpant, Cwm Bach

**Pellter:** 0.9 milltir (1.4 km)

**Cyfeirnod map:** SN047352

**Cymeriad:** Cwm bychan a serth, caeau ag anifeiliaid.

3 sticil, graddiannau serth.

Trowch i'r chwith allan o'r maes parcio ac yna trowch i'r chwith eto ar unwaith (trac mynediad at 'Ffald y Brenin') a dilynwch y trac mynediad i fyny at gopa'r bryn. Trowch i'r dde, ychydig bach cyn cyrraedd adeiladau, a pharhewch yn syth ymlaen trwy sticil wasgu. Yn raddol, trowch i'r chwith, gan gadw'r pwll ar y chwith, at sticil gyda marciwr llwybr. Ewch yn syth o'ch blaen i fyny, croeswch sticil a pharhewch i fyny'r grisiau, trwy giât, ac yna trowch i'r chwith. Ewch drwy'r giât ar y chwith, trowch i'r chwith ac yn i'r dde ar unwaith a dilynwch y llwybr glaswelltog i lawr y tyle. Anwybyddwch y sticil ar y chwith ac wrth y mynegbost ewch yn syth ymlaen ar hyd y llwybr sy'n lledaenu. Chwiliwch am giât ar y chwith ac ewch drwyddi yn ôl i lawr i'r maes parcio.

